SFLSCM125

Gwneud a chadarnhau archebion gyda chyflenwyr

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gosod a chadarnhau archebion gyda chyflenwyr. Mae'n cynnwys cael gwybodaeth am y cyflenwadau sydd angen eu harchebu a chadarnhau manylebau gyda chydweithwyr. Mae hefyd yn cynnwys nodi ac ymdrin â phroblemau a chydweithredu â gweithdrefnau.

Mae'r safon hon ar gyfer ymarferwyr cadwyn gyflenwi. Gallai hyn fod, er enghraifft, mewn rolau prynu, gweithrediadau logisteg llwythi neu reoli trafnidiaeth.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael gwybodaeth am y **cyflenwadau** y mae angen eu harchebu
2. cadarnhau'r **manylebau** ar gyfer yr archebion gyda **chydweithwyr**
3. gwneud archebion gyda chyflenwyr yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
4. cadarnhau archebion gyda chyflenwyr
5. nodi a gweithredu i ymdrin â phroblemau wrth wneud archebion
6. cydymffurfio â gweithdrefnau perthnasol, cyfreithiol, rheoliadol a sefydliadol ar gyfer gwneud archebion

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. nodau strategol, amcanion a gweithgareddau eich sefydliad mewn perthynas â gwneud a chadarnhau archebion gyda chyflenwyr
2. damcaniaethau, modelau ac arferion rheoli **cadwyn gyflenwi**
3. ffynonellau gwybodaeth eich sefydliad ar brosesau **cadwyn gyflenwi**
4. sut i wneud a chadarnhau archebion gyda chyflenwyr yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
5. y mathau o ddogfennau a ddefnyddir gan eich sefydliad ar gyfer cadarnhau ac archebu **cyflenwadau**
6. damcaniaethau, modelau ac arferion caffael
7. dulliau cyfathrebu a ddefnyddir gan eich sefydliad

## Geirfa

**Cadwyn gyflenwi:** caffaeliad, prynu a chyflenwi, logisteg, trafnidiaeth, a rheoli gweithrediadau, o fewn a rhwng ffiniau rhyngwladol

**Cydweithwyr:** parhaol, dros dro, staff asiantaeth, allanol

**Cyflenwadau:** unrhyw gyfuniad o nwyddau neu wasanaethau sy'n cael eu caffael, eu dosbarthu neu eu storio yn y gadwyn gyflenwi

**Manylebau:** set o ofynion i gael eu bodloni gan wasanaeth neu gynnyrch materol

SFLSCM125

# Gwneud a chadarnhau archebion gyda chyflenwyr

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Logistics |
| **Fersiwn rhif** | 2 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | Ionawr 2018 |
| **Indicative Review Date** | Ionawr 2023 |
| **Dilysrwydd** | ArHynOBryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Logistics |
| **RCU gwreiddiol** | SFLSCM125 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Manwerthu a chyfanwerthu ; Warws a Dosbarthu; Rheolwyr Dosbarthu, Storio a Manwerthu; Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiol Trafnidiaeth |
| **Cyfres/Set** | Rheoli Cadwyn Gyflenwi |
| **Geiriau Allweddol** | archebion; cyflenwyr; cadwyn gyflenwi |